department for
culture, media
and sport

Asesiad Effaith

Dosbarthiad gemau fideo: ymgynghoriad

Awst 2008

improving
the quality
of life for all

Ein nod yw gwella ansawdd bywyd i bawb trwy weithgareddau diwylliannol a chwaraeon, cefnogi'r ymchwil am ragoriaeth a hyrwyddo'r diwydiannau twristiaeth, creadigol a hamdden.

Sylfaen Tystiolaeth

Costau

1. Mae rhan gyntaf yr adran hon yn dangos costau systemau presennol y BBFC a PEGI ar gyfer dosbarthu gemau fideo. Mae'r ail adran o dan y teitl "Cymharu'r Dewisiadau" yn rhagosod rhai o'r rhagdybiaethau y bu'n rhaid i ni eu gwneud er mwyn cymhwyso'r strwythurau prisio presennol hyn at y gwahanol ddewisiadau a ragosodir yn y prif bapur ymgynghori. Yna, mae'r Asesiad Effaith yn mynd rhagddo i edrych yn fanylach ar bob un o'r dewisiadau gan ddangos costau a manteision pob un.

2. Mae'n werth nodi fel rhan o'r broses ymgynghori ar gyfer y dewisiadau hyn, byddem yn croesawu tystiolaeth ychwanegol a chyngor ar gynnwys yr asesiad neu unrhyw faterion cysylltiedig gan y partïon sydd â diddordeb i'n galluogi i gwblhau asesiad effaith sy'n fwy trwyadl a manylach ar gyfer y dewis terfynol a ddetholir unwaith i'r ymgynghoriad gau. Gwahoddir ymatebwyr i ddarparu'r wybodaeth hon fel rhan o'u hymateb i'r ddogfen ymgynghori (Dosbarthiad Gemau Fideo: ymgynghoriad), y mae copi ohoni i'w gael ochr yn ochr â'r asesiad effaith hwn ar wefan ymgynghori'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS).

BBFC

3. Nid cyfradd unffurf yw'r ffi a godir gan y BBFC am ddosbarthiad gemau fideo ac mae'n dibynnu ar gymhlethdod a graddfa'r gêm ac ehangder a dyfnder y materion dosbarthu. Yn 2007 y gost gyffredinol ar gyfartaledd i ddosbarthu gêm oedd £1,649.22. Cyfrifir y gost ar sail tâl trafod o £300 a £6 y funud am amser archwilio. Mae dosbarthiad BBFC sengl yn ddilys ar draws pob llwyfan ar yr amod bod y cynnwys yr un fath yn ei hanfod.

4. Yn 2007, derbyniodd y BBFC 276 o gemau i'w dosbarthu gan ddosbarthu 262 o'r rhain (roedd y 14 oedd yn weddill naill ai'n anghyflawn neu cawsant eu tynnu'n ôl gan y cyhoeddwr). Gellir dadansoddi'r 262 dan sylw i'r categorïau canlynol:

Tabl 1

Dosbarthiad	Nifer	Canran o'r cyfanswm
U	28	10.7
PG	37	14.1
12	40	15.27
15	95	36.26
18	62	23.67

(Yn ystod y cyfnod hwn, derbyniodd y BBFC hyd at ddeg gêm ryngweithiol hefyd a gyflwynwyd ar ddisgiau Blu ray gan ddosbarthwyr DVDau yn hytrach na chyhoeddwyr gêm. Mae 2008 yn gweld cynnydd yn nifer y cyflwyniadau o'r fath)

5. O'r gemau y mae'r BBFC wedi'u dosbarthu y llynedd, nid oedd 21% yn gyflwyniadau gwreiddiol uniongyrchol ac roeddent yn cynnwys demos, samplau a phyrth ac yn y blaen. Nid yw ffigyrau PEGI, ar y llaw arall, yn cynnwys y rhain.

6. Ar gyfer y chwe mis rhwng mis Rhagfyr 2007 a mis Mai 2008, yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd gan y BBFC i ddyrannu dosbarthiad i gêm a gyflwynwyd iddynt oedd:

Tabl 2

Rhagfyr 2007	6.3 diwrnod calendr
Ionawr 2008	11.1 diwrnod calendr
Chwefror 2008	7.2 diwrnod calendr
Mawrth 2008	7.5 diwrnod calendr (ac eithrio Manhunt 2 a oedd yn cynnwys ymgyfreitha)
Ebrill 2008	8 diwrnod calendr
Mai 2008	7 diwrnod calendr

Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys unrhyw oedi a achoswyd gan gyflwyniadau anghyflawn

7. Yr amser samplo/chwarae ar gyfartaledd a dreuliwyd gan yr archwilwyr ar bob gêm oedd:

Tabl 3

Dosbarthiad	Amser samplo, chwarae'r gêm ar gyfartaledd (munudau)
U	110
PG	150
12	165
15	230
18	250

8. Rhagosodir y gost ar gyfartaledd ar gyfer pob gêm yn Nhabl 4:

Tabl 4

Dosbarthiad	**Cost Gyfartalog (£300 tâl trafod a £6 y funud)**
U	£960
PG	£1,200
12	£1,290
15	£1,680
18	£1,800

Noder bod y ffigyrau hyn yn cynrychioli'r amseru mewn munudau o archwilio gemau'n aflinol ac nid ydynt yn cynnwys deunydd llinol.

PEGI

9. Mae ffioedd yn gysylltiedig â chategori'r cynnyrch a'r llwybr graddio. Gellir categoreiddio cynnyrch yn:

- gêm newydd (un sydd erioed wedi derbyn graddfa o dan y system PEGI o'r blaen)
- Llwyfan Ychwanegol (gêm sydd eisoes wedi derbyn graddfa o dan PEGI fel Gêm Newydd ar un llwyfan ac sydd wedyn yn derbyn graddfa ar lwyfan arall)
- Cynnyrch Lleol (Mae hyn yn berthnasol lle y gofynnir am raddfa ar gyfer nifer cyfyngedig o wledydd. Y nifer uchaf o wledydd yw pedair. Os bydd y grŵp o wledydd a ddetholir yn cynnwys y DU neu Ffrainc, ni fydd y categori cynnyrch lleol yn gymwys.)

10. Mae ffioedd hefyd yn amrywio yn ôl y llwybr graddio sy'n cael ei ddewis gan y cyhoeddwr gemau.

- Y llwybr cyflym – mae hwn yn gwarantu graddfa o fewn pum niwrnod gwaith o gyflwyno cais am raddfa i gêm 12+, 16+ neu 18+. Y cyfnod arferol yw deg diwrnod gwaith. Mae cyfnod cymeradwyo'r raddfa'n dechrau wedi i'r deunyddiau y mae angen eu harchwilio gael eu derbyn gan y VSC (Cyngor Safonau Fideo)/NICAM (NICAM yw Sefydliad Dosbarthu Cyfryngau Clyweledol yr Iseldiroedd). Ni

roddir y drwydded derfynol hyd nes y bydd y taliad angenrheidiol wedi'i drosglwyddo i ISFE (Ffederasiwn Meddalwedd Rhyngweithiol Ewrop)

- Y Llwybr Arferol – ar gyfer pob graddfa 3+ a 7+ (cyfnod safonol o dri diwrnod gwaith ar ôl i daliad gael ei drosglwyddo i'r ISFE). Mae graddfeydd 12+, 16+ a 18+ y mae'r llwybr graddio arferol wedi'i ddewis ar eu cyfer, yn cael eu prosesu o fewn deg diwrnod gwaith ar ôl i'r holl amodau gael eu bodloni gan y cyhoeddwr

Tabl 5

Cynnyrch	Ffi Safonol	Ffi'r Llwybr Cyflym
Gêm Newydd	€1000	€1500
Llwyfan Ychwanegol	€500	€750
Cynnyrch Lleol	€100	€150

11. O 1 Ionawr 2007 i 31 Rhagfyr 2007, dyrannwyd y dosbarthiadau yn Nhabl 6 gan PEGI.

Tabl 6

Dosbarthiad	Nifer	Canran o'r cyfanswm
3+	604	49.1
7+	175	14.2
12+	250	20.3
16+	97	7.9
18+	4	0.3

(Mae'r ffigyrau'n gysylltiedig â gemau ac nid llwyfannau)

12.Yn ychwanegol, cyfeiriodd VSC 101 o gemau at y BBFC yn ystod y cyfnod hwn (8.2% o'r cyfanswm). Cyfeiriwyd 50 o'r rhain o dan Ddeddf Recordiadau Fideo 1984. (Cafodd y 51 oedd yn weddill eu hatgyfeirio oherwydd bod ynddynt gynnwys llinol). O'r 50 o atgyfeiriadau, rhoddwyd graddfa 18 i 29, graddfa 15 i 19 a rhoddwyd graddfa 12 i 2 gan y BBFC.

Cymharu'r Dewisiadau

13. Mae cryn wahaniaeth rhwng strwythurau prisio'r BBFC a PEGI sy'n golygu bod cymharu'r costau'n uniongyrchol yn eithaf anodd. Er mwyn gwneud hyn, rydym wedi gwneud rhai rhagdybiaethau ac mewn rhai achosion rydym wedi rhoi ystod ffigyrau. Caiff y rhagdybiaethau hyn eu herio ac rydym yn croesawu sylwadau neu dystiolaeth bellach gan ymatebwyr sydd naill ai'n cytuno neu'n anghytuno â hwy er mwyn dylanwadu ar ein penderfyniad terfynol.

14. Er mwyn cyfrifo gwir gostau'r BBFC, rydym yn lluosi cyfanswm y gemau sydd wedi'u graddio ar bob lefel yn nhabl 1 gan gost graddio gemau ar gyfartaledd ar y lefel gyfatebol yn nhabl 4. Er mwyn cyfrifo gwir gostau PEGI, cymerwyd nifer y gemau wedi'u graddio ar bob lefel yn nhabl 6 a'u lluosi gan €1250 (gan ragdybio eu hanner ar y llwybr cyflym €1500 a hanner ar y gyfradd safonol €1000 yn nhabl 5) gan ychwanegu wedyn costau ychwanegol i'w hafalu â chael eu rhyddhau ar ddau a phum llwyfan. Cyfnewidiwyd yr holl ffigyrau i bunnoedd sterling gan ddefnyddio'r cyfraddau cyfnewid cyfartalog dros y 12 mis diwethaf (gan ddod i ben ym mis Gorffennaf 2008), sef 0.744747.
.

15. At ddibenion y cyfrifiadau canlynol, rydym wedi rhagdybio:

- bod y cyfraddau cyfnewid ar gyfartaledd ar gyfer y 12 mis diwethaf (gan ddod i ben ym mis Gorffennaf 2008) yn gymwys i'r holl daliadau a godir gan PEGI fel y gallwn gymharu'r holl gostau mewn sterling. (O gofio bod yr holl daliadau a godir gan PEGI'n cael eu gwneud mewn ewros, mae'r ffigyrau costau'n sensitif i newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid.)
- y codwyd ffi'r gyfradd safonol ar hanner y gemau a gafodd eu graddio gan PEGI a chodwyd ffi ddrutach y llwybr cyflym ar yr hanner arall

- bod nifer y llwyfannau ar gyfartaledd y rhyddheir pob gêm fideo arnynt yn amrywio rhwng dau a phum llwyfan
- bod pob gêm sy'n cael ei rhyddhau yn y DU yn cael eu rhyddhau mewn o leiaf un o'r gwledydd sy'n cymhwyso PEGI.
- bod y systemau graddio wedi'u halinio'n fras fel y bydd graddfa U yn cyfateb i 3+ a PG i 7+

Rhagosodir rhagdybiaethau eraill yn y dewisiadau priodol.

16. Mae Tabl 7 yn rhagosod costau ar draws y gwahanol ddewisiadau. Y costau yng ngholofn y DU yw'r taliadau a godir ar gwmnïau sydd eisiau rhyddhau eu teitl yn y DU. Mae colofn Ewrop yn rhagosod y costau ychwanegol y bydd yn rhaid i gwmnïau gemau eu talu (dros ben yr hyn sydd eisoes yn digwydd o dan y system ddosbarthu bresennol) os yw'r un gêm i'w rhyddhau mewn un neu ragor o'r gwledydd sy'n dod o dan y system PEGI yn Ewrop. Ceir awgrym y gallai'r costau dybledig hyn gael eu lleihau'n sylweddol pe bai'r diwydiant yn cytuno i droi graddfa'r BBFC yn raddfa PEGI yn awtomatig a byddem yn croesawu unrhyw dystiolaeth am ehangder y posibiliadau o wneud hyn.

Tabl 7

	Gwir ffigyrau 2007			
	Y DU		Ewrop	
Nifer y llwyfannau ar gyfartaledd	**Dau**	**Pump**	**Dau**	**Pump**
Costau BBFC	£394,080	£394,080	£0	£0
Costau PEGI	£1,577,933	£3,155,865	£0	£0
Cyfanswm y Costau	£1,972,013	£3,549,945	£0	£0
Cyfanswm yr Ystod Gyfun	**£1,972,013 - £3,549,945**			
	Dewis 1: Hybrid			
	Y DU		Ewrop	
Nifer y llwyfannau ar gyfartaledd	**Dau**	**Pump**	**Dau**	**Pump**
Costau BBFC	£879,540	£879,540	£0	£0
Costau PEGI	£1,087,796	£2,175,592	£490,137	£980,273
Cyfanswm y costau	£1,967,336	£3,055,132	£490,137	£980,273
Cyfanswm yr Ystod Gyfun	**£2,457,473 - £4,035,405**			
	Dewis 2: BBFC Ychwanegol			
	Y DU		Ewrop	
Nifer y llwyfannau ar gyfartaledd	**Dau**	**Pump**	**Dau**	**Pump**
Costau BBFC	£1,669,380	£1,669,380	£0	£0
Costau PEGI	£0	£0	£1,577,933	£3,155,865
Cyfanswm y costau	£1,669,380	£1,669,380	£1,577,933	£3,155,865
Cyfanswm yr Ystod Gyfun	**£3,247,313 - £4,825,245**			
	Dewis 3: PEGI Ychwanegol			
	DU		Ewrop	
Nifer y llwyfannau ar gyfartaledd	**Dau**	**Pump**	**Dau**	**Pump**
Costau BBFC	£0	£0	£0	£0
Costau PEGI *	£2,261,865	£4,205,654	£0	£0
Cyfanswm y costau *	£2,396,790	£4,340,579	£0	£0
Cyfanswm yr	**£2,396,790 - £4,340,579**			

Ystod Gyfun *				
* ffigyrau'n cynnwys amcan gost o £453,000, am gyflawni swyddogaethau statudol				
	Dewis 4: Cod Ymarfer			
	Y DU		**Ewrop**	
Nifer y llwyfannau ar gyfartaledd	**Dau**	**Pump**	**Dau**	**Pump**
Costau BBFC	£394,080	£394,080	£0	£0
Costau PEGI	£1,577,933	£3,155,865	£0	£0
Cyfanswm y costau	£1,972,013	£3,549,945	£0	£0
Cyfanswm yr Ystod Gyfun	**£1,972,013 - £3,549,945**			

Dewis 1 – System Ddosbarthu Hybrid

17. Byddai'r BBFC yn graddio pob gêm nad ydynt yn addas ond i chwaraewyr dros 12 oed, gyda PEGI'n parhau i raddio pob gêm 3+ a 7+. Byddai logos y BBFC yn ymddangos ar flaen pob blwch gyda logos PEGI ar y cefn.

18. Byddai'r Llywodraeth yn ymestyn pwerau statudol y BBFC i gynnwys gemau o 12+, gan ddod â'r Bwrdd yn unol â'r system ddosbarthu a ddefnyddir ar gyfer DVDau/fideos a chan adeiladu ar ymwybyddiaeth a dealltwriaeth rhieni o'r hyn a olygir gan y graddfeydd hynny. Bydd y system hon yn gweithio orau os bydd y BBFC a PEGI yn dod i gytundeb ynglŷn â'u logos a dosbarthiadau oedran fel y gellir mabwysiadu dull mwy integredig.

Costau

19. Mae Tabl 8 yn dangos y newidiadau o ran pwy fydd yn graddio pa gemau fideo gan ddefnyddio gwir ffigyrau 2007 fel llinell sylfaen. Mae colofn Ewrop yn rhagosod y costau ychwanegol y bydd yn rhaid i gwmnïau gemau eu talu (dros ben y dyblygu sydd eisoes yn digwydd o dan y system ddosbarthu bresennol) os bydd yr un gêm i'w rhyddhau mewn un neu ragor o'r gwledydd sy'n dod o dan y system PEGI yn Ewrop.

Tabl 8

Nifer y Graddfeydd	Gwir Ffigyrau 2007		Dewis 1: Hybrid	
	Y DU	Ewrop	Y DU	Ewrop
U	28	n/a	28	
PG	37	n/a	37	
12	40	n/a	290	
15	95	n/a	192	
18	62	n/a	62	
3+	604	n/a	604	
7+	175	n/a	175	
12+	250	n/a		250
15+	97	n/a		97
18+	4	n/a		4

Cyfanswm	1392		1388	351
Cyfanswm cyfun	1392		1739	

20. Mae Tabl 9 yn dangos sut y gallai'r dewis hwn effeithio ar y costau i'r diwydiant o ran ffioedd.

Ystyriaeth costau

21. Ar hyn o bryd, mae'r BBFC yn gweithredu'r swyddogaeth statudol fel y mae'n ymwneud â 18 o ddosbarthiadau ac o ganlyniad mae'r mecanweithiau mewnol eisoes ganddynt (er enghraifft, systemau apelio) yn eu lle i ategu hyn. Tra byddai ymestyn eu cyfrifoldeb i gemau o 12+ yn golygu cynnydd yn nifer y ceisiadau, dylai hyn gael ei wrthbwyso gan y ffioedd ychwanegol a fyddai'n cael eu cynhyrchu.

22. Mae'r dewis hwn yn rhagdybio y bydd y BBFC yn parhau i raddio pob gêm sy'n cynnwys ffilm neu fideo nad yw'n rhan annatod o'r gêm.

23. Mae edrych ar gostau'r DU yn unig ar gyfer y dewis hwn yn debyg yn fras i'r *status quo*, fodd bynnag, pan fyddwn yn cymryd i ystyriaeth y bydd yn rhaid i gwmnïau gemau dalu swm ychwanegol* i raddio'r un gêm mewn unrhyw un o'r gwledydd sy'n cael eu graddio gan PEGI, mae'n mynd yn ddrutach.

*Dylid cyfeirio at baragraff 16.

24. Mae'r Llywodraeth hefyd yn ymwybodol mai busnesau bach fydd cyfran o'r rheiny yr effeithir arnynt, gan gynnwys manwerthwyr. Byddai'n croesawu barn ynglŷn ag i ba raddau y gallai hyn fod yn fater i'w ystyried ynghyd â thystiolaeth o'r baich posibl y gallai'r dewis hwn ei roi arnynt.

Tabl 9

Costau	**Gwir Ffigyrau 2007**				**Dewis 1: Hybrid**			
	Y DU		**Ewrop**		**Y DU**		**Ewrop**	
U	£26,880		£0		£26,880		£0	
PG	£44,400		£0		£44,400		£0	
12	£51,600		£0		£374,100		£0	
15	£159,600		£0		£322,560		£0	
18	£111,600		£0		£111,600		£0	
Nifer y llwyfannau	**Dau**	**Pump**	**Dau**	**Pump**	**Dau**	**Pump**	**Dau**	**Pump**
3+	£843,426	£1,686,851	£0	£0	£843,426	£1,686,852	£0	
7+	£244,370	£488,740	£0	£0	£244,370	£488,740	£0	
12+	£349,100	£698,200	£0	£0	£0	£0	£349,100	£698,200
15+	£135,451	£270,901	£0	£0	£0	£0	£135,451	£270,901
18+	£5,586	£11,171	£0	£0	£0	£0	£5,586	£11,171
Cyfanswm	£1,972,013	£3,549,945	£0	£0	£1,967,336	£3,055,132	£490,137	£980,273
Cyfanswm cyfun	**£1,972,013 - £3,549,945**				**£2,457,473 - £4,035,405**			

Baich Gweinyddol

25. Bydd pob un o'r dewisiadau'n cario'i faich gweinyddol ei hun ac rydym am i ymatebwyr ddarparu gwybodaeth fanwl i ni ynglŷn â natur y beichiau hyn a'r ffordd y gallent effeithio arnynt. O dan ddewis hybrid, er enghraifft, byddai'n rhesymol rhagdybio y byddai'r beichiau cynyddol yn cynnwys costau sy'n codi fel a ganlyn:

- O dan y system gyfredol, at ei gilydd, bydd cynhyrchwyr yn ymgymryd ag un broses gais yn unig er bod rhai'n cael eu cyfeirio at y BBFC ar ôl derbyn 18+ PEGI felly byddai'n rhaid i'r rhain gyflawni dwy. Mae'r broses yn golygu costau o ran amser ac adnoddau dynol. O dan y system hybrid, byddai hon yr un fath yn y DU ond byddai mwy o gemau'n cael eu graddio gan ddefnyddio system y BBFC nag sy'n digwydd ar hyn o bryd. Byddem yn croesawu tystiolaeth am gostau'r prosesau priodol am

gael dosbarthiad o dan y BBFC a PEGI. O dan y system hybrid hon, fodd bynnag, byddai'n rhaid i fwy o gemau gael eu graddio ar wahân yn y DU ac mewn gwledydd eraill sy'n defnyddio'r system PEGI ac felly byddai'n rhaid i gyhoeddwyr gemau gael eu graddio gan systemau'r BBFC a PEGI gan fynd i gostau gweinyddol uwch.

- Yn y cyfnodau cychwynnol, efallai y bydd yn rhaid i fanwerthwyr ymdrin ag ymholiadau gan y cyhoedd ynglŷn â natur ddeuol y labelu. Tra bydd hyn yn gymwys i ryw raddau i bob un o'r dewisiadau, mae'n fwy tebygol o fod yn fater i'w ystyried yn achos y dewis hybrid.

Manteision

26. Rhaid mai amcan unrhyw newid fydd rhoi yn ei lle system ddosbarthu sy'n ystyrlon ac yn effeithiol ac sydd o ganlyniad yn darparu amddiffyniad i blant ac oedolion ifanc. Dylai alluogi rhieni a phlant i fod yn glir ac yn hyderus ynglŷn â chynnwys y gemau y maent yn eu prynu ac i fanwerthwyr fod yr un mor glir am y gemau y maent yn eu gwerthu. Byddem yn croesawu gwybodaeth gan ymatebwyr ynglŷn â'r ffordd ac i ba raddau y bydd pob un o'r dewisiadau'n cyflawni'r amcan hwn. Er enghraifft, gallai manteision dewis hybrid gynnwys:

- Y ffaith fod y cyhoedd eisoes yn gyfarwydd â symbolau'r BBFC yng nghyd-destun ffilmiau a DVDau a bydd eu defnydd ym maes gemau'n adeiladu ar y cynefindra hwnnw
- Ar yr un pryd, dylai dewis hybrid alluogi'r cyhoedd i gynyddu'u hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o'r system PEGI a'i phictogramau
- Byddai pob gêm i bobl 12 oed a throsodd yn cael eu graddio'n ôl sensitifrwydd a derbynioldeb yn y DU o dan y canllawiau a gyhoeddir ac sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd gan y BBFC.

Dewis 2: System BBFC Ychwanegol

27. Byddai'r BBFC yn gweithredu fel yr unig gorff dosbarthiadau statudol ar gyfer pob gêm fideo gan gymhwyso eu graddfeydd o U hyd at 18. Byddai'n cadw'u pŵer i wrthod dosbarthu gemau sydd, yn ei farn, â'r potensial i fod yn niweidiol yn seiliedig ar ei ymgynghoriadau â'r cyhoedd.

Costau

Tabl 10

Nifer y Graddfeydd	Gwir Ffigyrau 2007		Dewis 2: BBFC Ychwanegol	
	Y DU	Ewrop	Y DU	Ewrop
U	28	n/a	632	
PG	37	n/a	212	
12	40	n/a	290	
15	95	n/a	192	
18	62	n/a	62	
3+	604	n/a		604
7+	175	n/a		175
12+	250	n/a		250
15+	97	n/a		97
18+	4	n/a		4
Cyfanswm	1392		1388	1130
Cyfanswm cyfun	1392		2518	

Tabl 11

Costau	**Gwir Ffigyrau 2007**				**Dewis 2: BBFC Ychwanegol**			
	Y DU		**Ewrop**		**Y DU**		**Ewrop**	
U	£26,880		£0		£606,720		£0	
PG	£44,400		£0		£254,400		£0	
12	£51,600		£0		£374,100		£0	
15	£159,600		£0		£322,560		£0	
18	£111,600		£0		£111,600		£0	
Nifer y llwyfannau	**Dau**	**Pump**	**Dau**	**Pump**	**Dau**	**Pump**	**Dau**	**Pump**
3+	£843,426	£1,686,851	£0	£0	£0	£0	£843,426	£1,686,851
7+	£244,370	£488,740	£0	£0	£0	£0	£244,370	£488,740
12+	£349,100	£698,200	£0	£0	£0	£0	£349,100	£698,200
15+	£135,451	£270,901	£0	£0	£0	£0	£135,451	£270,901
18+	£5,586	£11,171	£0	£0	£0	£0	£5,586	£11,171
Cyfanswm	£1,972,013	£3,549,945	£0	£0	£1,669,380	£1,669,380	£1,577,933	£3,155,865
Cyfanswm cyfun	**£1,972,013 - £3,549,945**				**£3,247,313 - £4,825,245**			

Ystyriaeth Costau

28. Mae costau'r DU yn unig yn sylweddol ratach na'r *status quo* yn y dewis hwn – yn enwedig oherwydd nad oes angen talu am lwyfannau ychwanegol i'w graddio.

29. Fodd bynnag, pan fyddwch yn cymryd i ystyriaeth y bydd angen* i'r holl gemau gael eu hailraddio gan y system PEGI er mwyn iddynt gael eu rhyddhau mewn un neu ragor o wledydd PEGI, hwn wedyn yw'r dewis drutaf.

*Dylech gyfeirio at baragraff 16.

30. Mae'r Llywodraeth hefyd yn ymwybodol mai busnesau bach, gan gynnwys manwerthwyr, fydd cyfran o'r rheini yr effeithir arnynt. Byddai'n croesawu barn ynglŷn ag i ba raddau y gallai hwn fod yn fater i'w ystyried a thystiolaeth am y baich posibl y gallai'r dewis hwn ei roi arnynt.

Beichiau Gweinyddol

31. Bydd pob un o'r dewisiadau'n cario'i faich gweinyddol ei hun ac rydym am i ymatebwyr ddarparu gwybodaeth fanwl i ni ynglŷn â natur y beichiau hyn a'r ffordd y gallent effeithio arnynt. O dan y dewis BBFC ychwanegol, er enghraifft, byddai'n rhesymol i ragdybio y bydd beichiau ychwanegol yn cynnwys costau sy'n codi fel a ganlyn:

- Ni fyddai ond un broses gais a dim ond un set o gostau'n gysylltiedig â gwariant o ran amser ac adnoddau dynol wrth gwblhau'r broses. Byddem yn croesawu tystiolaeth o gostau'r beichiau gweinyddol hyn o'u cymharu â'r system gyfredol
- Ar gyfer gemau a gyhoeddir mewn gwledydd lle mae PEGI yn gymwys, bydd angen i gyhoeddwyr gael dau ddosbarthiad, y naill i'r BBFC (a fydd yn gymwys yn y DU) a'r llall i PEGI. Byddai hyn yn golygu cyflwyno ar gyfer dwy broses ar wahân*. Byddai beichiau ychwanegol yn gysylltiedig ag amser ac adnoddau dynol (gan gynnwys cwblhau holiadur PEGI) yn deillio o hynny

* Dylech gyfeirio at baragraff 16.

Manteision

32. Rhaid mai amcan unrhyw newid fydd rhoi yn ei lle system ddosbarthu sy'n ystyrlon ac yn effeithiol ac sydd, o ganlyniad, yn darparu amddiffyniad i blant ac oedolion ifanc. Dylai alluogi rhieni a phlant i fod yn glir ac yn hyderus am gynnwys y gemau y maent yn eu prynu ac i fanwerthwyr fod yr un mor glir ynglŷn â'r gemau y maent yn eu gwerthu. Byddem yn croesawu gwybodaeth gan ymatebwyr ynglŷn â'r ffordd ac i ba raddau y bydd pob un o'r dewisiadau'n cyflawni'r amcan hwn. Er enghraifft, gallai manteision y dewis BBFC ychwanegol gynnwys:

- Y ffaith bod y cyhoedd eisoes yn gyfarwydd â symbolau'r BBFC yng nghyd-destun ffilmiau a DVDau a bydd eu defnydd ym maes gemau'n adeiladu ar y cynefindra hwnnw
- Byddai pob gêm i bobl 12 oed a throsodd yn cael eu graddio'n ôl sensitifrwydd a derbynioldeb yn y DU o dan y canllawiau a gyhoeddir ac sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd gan y BBFC.

Dewis 3. System PEGI Ychwanegol

33. Y corff dosbarthu statudol dynodedig ar gyfer gemau fideo fyddai corff seiliedig yn y DU (o bosibl y Cyngor Safonau Fideo *(VSC)*), gan gymhwyso graddfeydd PEGI a fyddai'n orfodadwy o dan y gyfraith. Byddai angen i'r VSC (neu gorff arall o'r DU a ddewisir) ymgymryd â'r rôl newydd hon ac unrhyw ddyletswyddau deddfwriaethol eraill sy'n ofynnol. Byddai pob gêm fideo'n cael ei graddio gan ddefnyddio'r system PEGI a'r unig rôl i'r BBFC fyddai dosbarthu cynnwys ffilmiau neu fideos nad ydynt yn rhan annatod o'r gêm.

Costau

Tabl 12

Nifer y Graddfeydd	Gwir Ffigyrau 2007		Dewis 3: PEGI Ychwanegol	
	Y DU	Ewrop	Y DU	Ewrop
U	28	dd.y.b		
PG	37	dd.y.b		
12	40	dd.y.b		
15	95	dd.y.b		
18	62	dd.y.b		
3+	604	dd.y.b.	632	
7+	175	dd.y.b	212	
12+	250	dd.y.b.	290	
15+	97	dd.y.b	192	
18+	4	dd.y.b	62	
Cyfanswm	1392		1388	
Cyfanswm cyfun	1392		1388	

Tabl 13

Costau	**Gwir Ffigyrau 2007**				**Dewis 3: PEGI Ychwanegol**			
	Y DU		**Ewrop**		**Y DU**		**Ewrop**	
U	£26,880		£0		£0		£0	
PG	£44,400		£0		£0		£0	
12	£51,600		£0		£0		£0	
15	£159,600		£0		£0		£0	
18	£111,600		£0		£0		£0	
Nifer y llwyfannau	**Dau**	**Pump**	**Dau**	**Pump**	**Dau**	**Pump**	**Dau**	**Pump**
3+	£843,426	£1,686,851	£0	£0	£882,525	£1,765,050	£0	£0
7+	£244,370	£488,740	£0	£0	£296,037	£592,073	£0	£0
12+	£349,100	£698,200	£0	£0	£404,956	£809,912	£0	£0
15+	£135,451	£270,901	£0	£0	£268,109	£536,218	£0	£0
18+	£5,586	£11,171	£0	£0	£92,163	£184,326	£0	£0
Cyfanswm	£1,972,013	£3,549,945	£0	£0	£1,943,790	£3,887,579	£0	£0
Cyfanswm cyfun	**£1,972,013 - £3,549,945**				**£1,943,790 - £3,887,579**			
Cyfanswm cyfun ar gyfer Dewis 3 (gan gynnwys £453,000 amcan gost ar gyfer swyddogaethau statudol)					**£2,396,790 - £4,340,579**			

Ystyriaeth costau

34. Mae'r dewis hwn yn rhagdybio y byddai'r BBFC yn parhau i raddio'r cynnwys ffilm neu fideo nad yw'n rhan annatod o'r gêm, ond nid yw'r costau hyn wedi'u cynnwys. Byddem yn croesawu tystiolaeth i ddangos sut y byddai hyn yn effeithio ar y ffigyrau'n gyffredinol.

35. Byddai'n rhaid i'r Cyngor Safonau Fideo (VSC) neu gorff arall o'r DU gopïo dyletswyddau'r BBFC sy'n codi o'r Ddeddf Recordiadau Fideo. Yn 2007, y costau hyn oedd £318,075. Mae rhes olaf tabl 13 yn dangos sut y byddai'r costau ychwanegol hyn yn effeithio ar y canlyniadau.

36. Mae'r dewis hwn yn ddrutach na'r *status quo*, ac eto'n rhatach na Dewisiadau 1 a 2, yn bennaf oherwydd nad oes dyblygu gyda gwledydd eraill sy'n defnyddio graddfeydd PEGI.

37. Mae'r Llywodraeth hefyd yn ymwybodol mai busnesau bach, gan gynnwys manwerthwyr, fydd cyfran o'r rheiny yr effeithir arnynt. Byddai'n croesawu barn ynglŷn ag i ba raddau y gallai hyn fod yn fater i'w ystyried a thystiolaeth o'r baich posibl y gallai'r dewis hwn ei roi arnynt.

Beichiau Gweinyddol

38. Bydd pob un o'r dewisiadau'n cario'i faich gweinyddol ei hun ac rydym am i ymatebwyr ddarparu gwybodaeth fanwl i ni ynglŷn â natur y beichiau hyn a'r ffordd y gallent effeithio arnynt. O dan ddewis PEGI ychwanegol, er enghraifft, byddai'n rhesymol rhagdybio y bydd beichiau ychwanegol yn cynnwys costau sy'n codi fel a ganlyn:

- Ni fyddai ond un broses gais a dim ond un set o gostau'n gysylltiedig â gwariant o ran amser ac adnoddau dynol wrth gwblhau'r broses. Byddem yn croesawu tystiolaeth o gostau'r beichiau gweinyddol hyn o'u cymharu â'r system gyfredol
- Byddai angen i gemau wedi'u graddio gan PEGI gario dosbarthiad BBFC (a olygai fynd i gostau ychwanegol o ran amser ac adnoddau dynol) lle maent yn cynnwys fideo nad yw'n annatod i'r gêm (gweler ystyriaeth costau uchod)

Manteision

39. Rhaid mai amcan unrhyw newid fydd rhoi yn ei lle system ddosbarthu sy'n ystyrlon ac yn effeithiol ac sydd o ganlyniad yn darparu amddiffyniad i blant ac oedolion ifanc. Dylai alluogi rhieni a phlant i fod yn glir ac yn hyderus am gynnwys y gemau y maent yn eu prynu ac i fanwerthwyr fod yr un mor glir am y gemau y maent yn eu gwerthu. Byddem yn croesawu gwybodaeth gan ymatebwyr ynglŷn â'r ffordd ac i ba raddau y bydd pob un o'r dewisiadau yn cyflawni'r amcan hwn. Er enghraifft, gallai manteision dewis PEGI ychwanegol gynnwys:

- Ateb gan y diwydiant yw hwn ac felly mae'n ysbrydoli perchenogaeth ymhlith ei aelodau
- Mae'n gymwys ar draws nifer o wledydd.

Dewis 4: Cod Ymarfer Gwirfoddol

40. Ni fyddai unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud i'r ddeddfwriaeth ac felly byddai'r BBFC a PEGI'n parhau i ddosbarthu gemau yn ôl eu harfer ar hyn o bryd. Byddai'r system gyfredol o ddosbarthu deuol a labelu'n parhau i fodoli. Yna, byddai'r Llywodraeth yn gofyn i fanwerthwyr a chyflenwyr i ymuno â Chod Ymarfer gwirfoddol er mwyn sicrhau eu bod yn glynu wrth y system ddosbarthu wrth werthu neu gyflenwi gemau fideo i blant 12 oed a throsodd, er na fyddai trosedd statudol yn cael ei gyflawni pe baent yn torri'r Cod. Byddai'r Cod Ymarfer hwn yn canolbwyntio ar ddosbarthu, amddiffyn defnyddwyr ac addysgu defnyddwyr a byddai'n dilyn y canllawiau a amlinellwyd yn yr Adolygiad. Ni fyddai estyniad i gynsail statudol y system ddosbarthu ar gyfer gemau 12+ ond byddai'r cynnig hwn yn anelu at sicrhau cydymffurfiaeth trwy ddulliau gwirfoddol a system arfer da cytûn.

Costau

41. Nid yw tablau sy'n dangos nifer y graddfeydd a roddir gan bob system a chymhariaeth o'r costau hynny wedi'u cynnwys yn y dewis hwn oherwydd y byddent yr un fath â'r rheiny ar gyfer y system gyfredol. Fodd bynnag, byddai costau ychwanegol o ran cynhyrchu, lledaenu a chyfathrebu'r Cod Ymarfer a'r canllawiau arfer gorau a byddem yn croesawu mewnbwn ynglŷn â'r hyn y gellid ei gynnwys yn y rhain.

42. Mae'r Llywodraeth hefyd yn ymwybodol mai busnesau bach, gan gynnwys manwerthwyr, fydd rhai o'r rheiny yr effeithir arnynt. Byddai'n croesawu barn ynglŷn ag i ba raddau y gallai hyn fod yn fater i'w ystyried a thystiolaeth o'r baich posibl y gallai'r dewis hwn ei roi arnynt.

Beichiau Gweinyddol

43. Bydd pob un o'r dewisiadau'n cario'i faich gweinyddol ei hun ac rydym am i ymatebwyr ddarparu gwybodaeth fanwl i ni ynglŷn â natur y beichiau hyn a'r ffordd y gallent effeithio arnynt. O dan ddewis y Cod Ymarfer gwirfoddol, er enghraifft, byddai'n rhesymol rhagdybio y bydd beichiau ychwanegol yn cynnwys costau sy'n codi fel a ganlyn:

- Argraffu a lledaenu'r Cod
- Darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr, a manwerthwyr a'r diwydiant yn cyfathrebu'r arfer da

Manteision

44. Rhaid mai amcan unrhyw newid fydd rhoi yn ei lle system ddosbarthu sy'n ystyrlon ac yn effeithiol ac sydd o ganlyniad yn darparu amddiffyniad i blant ac oedolion ifanc. Dylai alluogi rhieni a phlant i fod yn glir ac yn hyderus am gynnwys y gemau y maent yn eu prynu ac i fanwerthwyr fod yr un mor glir am y gemau y maent yn eu gwerthu. Byddem yn croesawu gwybodaeth gan ymatebwyr ynglŷn â'r ffordd ac i ba raddau y bydd pob un o'r dewisiadau yn cyflawni'r amcan hwn. Er enghraifft, gallai manteision dewis Cod Ymarfer gwirfoddol gynnwys:

- Perchenogaeth y diwydiant
- Dim newid i'r system reoleiddio gyfredol

Profion Effaith Penodol (gweler tudalen 4 y ddogfen statudol)

45. Rhoddir ystyriaeth i'r gwahanol brofion y cyfeirir atynt yn y rhestr wirio yn dilyn ymgynghori. Fodd bynnag, mae croeso i ymatebwyr wneud sylwadau am yr agweddau hyn os oes ganddynt farn a allai ddylanwadu ar y canlyniad.